CARERS TRUST



# Swyddog Rhaglen Gweld Fi

Cymru

# Swyddog Rhaglen Gweld Fi

## Cymru

**Contract:** Cyfnod penodol am 3 blynedd.
**Oriau:** Rhan amser – 3 diwrnod yr wythnos (0.6 FTE).
**Salary:** £20,000 - £21,500
**Location:** Hybrid ac 1 diwrnod yr wythnos yn swyddfa Ymddiriedolaeth Gofalwyr Caerdydd. Hyblygrwydd i weithio o swyddfeydd eraill Ymddiriedolaeth Gofalwyr ledled y DU pan fo angen.

## Pam fod y swydd hon yn hanfodol i'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Bydd y Swyddog Rhaglen, sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, yn chwarae rhan ganolog yn nhîm rhaglenni Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, gan gydlynu a chyflwyno rhaglen beilot genedlaethol sy'n canolbwyntio ar wella'r broses o adnabod a chefnogi gofalwyr pobl y mae camddefnyddio sylweddau problemus yn effeithio arnynt. Gan weithio ar y cyd â Phartneriaid Rhwydwaith, sefydliadau arbenigol, a gofalwyr, bydd y rôl yn sbarduno gweithio mewn partneriaeth, yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau ac ymyriadau, ac yn sicrhau bod dysgu'n cael ei gofnodi a'i rannu ledled Cymru. Bydd y Swyddog Rhaglen yn helpu i hwyluso hyfforddiant, gweithgarwch cydgynhyrchu, ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid rhanbarthol a chenedlaethol i gryfhau'r cymorth sydd ar gael i'r grŵp cudd hwn o ofalwyr.

Mae'r swydd hon yn hanfodol i ddatblygu cenhadaeth Ymddiriedolaeth Gofalwyr i greu byd teg i ofalwyr. Ni fyddwn yn rhoi'r ffidil yn y to nes bydd pob gofalwr yn cael bargen deg, gofal teg a dyfodol teg. Nid yw gofalwyr pobl sy'n camddefnyddio sylweddau yn cael digon o sylw ac maent yn wynebu heriau penodol, gan gynnwys stigma, teimlo'n ynysig a rhwystrau rhag cael gafael ar gymorth.

Drwy wella ymwybyddiaeth, cryfhau partneriaethau, a gwreiddio dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, bydd y swydd hon yn helpu mwy o ofalwyr i gael gafael ar y cymorth priodol sydd ei angen arnynt, gwella eu llesiant drwy eu cefnogi nawr, a sicrhau bod eu lleisiau'n siapio gwasanaethau a pholisïau yn y dyfodol. Drwy ddysgu a gwerthuso cadarn, bydd y swydd hefyd yn cyfrannu at adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr hyn sy'n gweithio, gan gefnogi newid systemau hirdymor ledled Cymru i sicrhau bod gofalwyr yn cael yr un cyfleoedd â phawb arall.

CARERS TRUST

## Yn y rôl hon byddwch yn

- Cefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno sesiynau hyfforddi a mentora, gan alluogi staff Partneriaid Rhwydwaith i gynyddu eu gwybodaeth a'u hyder wrth gefnogi'r grŵp o ofalwyr dan sylw.
- Cydlynu'r gwaith o ddarparu sesiynau cymorth i ofalwyr (gan anelu at o leiaf 30 sesiwn) gan ddefnyddio dull cyd-gynhyrchu ac addasu i anghenion lleol.
- Hwyluso cydweithrediad rhwng Partneriaid Rhwydwaith sy'n cymryd rhan a sefydliadau camddefnyddio sylweddau arbenigol i gyd-ddylunio a darparu cymorth wedi'i deilwra i ofalwyr.

## Prif gyfrifoldebau
### *(nid yw hon yn rhestr gyflawn)*

- Cydlynu'r gwaith o ddarparu rhaglen beilot (mewn dwy ardal ddynodedig yng Nghymru) sy'n cefnogi gofalwyr pobl y mae camddefnyddio sylweddau problemus yn effeithio arnynt, gan sicrhau bod gweithgareddau'n cyd-fynd â chanlyniadau ac amserlenni y cytunwyd arnynt.
- Meithrin a chynnal partneriaethau â Phartneriaid Rhwydwaith, sefydliadau arbenigol (e.e. gwasanaethau camddefnyddio sylweddau), a rhanddeiliaid ehangach i gryfhau llwybrau cymorth lleol a chenedlaethol.
- Hwyluso cydweithrediad rhwng Partneriaid Rhwydwaith sy'n cymryd rhan a sefydliadau camddefnyddio sylweddau arbenigol i gyd-ddylunio a darparu cymorth wedi'i deilwra i ofalwyr.
- Cefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno sesiynau hyfforddi a mentora, gan alluogi staff Partneriaid Rhwydwaith i gynyddu eu gwybodaeth a'u hyder wrth gefnogi'r grŵp o ofalwyr dan sylw.
- Ymgysylltu'n uniongyrchol â gofalwyr i lywio'r gwaith o ddatblygu rhaglenni, gan sicrhau bod profiadau bywyd yn siapio adnoddau, cynigion cymorth ac allbynnau dysgu.
- Goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a phrofi offer, adnoddau ac ymyriadau cymorth gyda Phartneriaid Rhwydwaith sy'n cymryd rhan.
- Cydlynu'r gwaith o ddarparu sesiynau cymorth i ofalwyr (gan anelu at o leiaf 30 sesiwn) gan ddefnyddio dull cyd-gynhyrchu ac addasu i anghenion lleol.

CARERS TRUST

# Prif gyfrifoldebau
## *(nid yw hon yn rhestr gyflawn)*

- Gweithio gyda phartneriaid i wella'r broses o adnabod gofalwyr mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a chryfhau llwybrau atgyfeirio a chyfeirio.
- Arwain gweithgareddau monitro, gwerthuso a rhaglenni dysgu, gan gasglu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio i wella'r broses o ganfod a chefnogi.
- Llunio adroddiadau clir, astudiaethau achos a deunyddiau dysgu i rannu canfyddiadau ar draws rhwydwaith Ymddiriedolaeth Gofalwyr a gyda rhanddeiliaid allanol, gan hysbysu polisïau ac arferion yn y dyfodol.

# Ein hymgeisydd delfrydol

Rydym yn croesawu ymgeiswyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Gall sgiliau fel cydlynu partneriaethau, ymgysylltu â'r gymuned, neu gyflawni prosiectau wedi cael eu datblygu drwy rolau proffesiynol, gwirfoddoli, neu brofiad uniongyrchol.

- Sgiliau trefnu cryf gyda'r gallu i gydlynu prosiectau, rheoli blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, a chadw gweithgareddau ar y trywydd cywir.
- Profiad o gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid, megis elusennau, gwasanaethau cyhoeddus neu gyrff cymunedol.
- Meithrin a hwyluso perthnasoedd ar draws amryw o sectorau'n hyderus.
- Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol, gan gynnwys hwyluso gweithdai, cyfarfodydd neu sesiynau hyfforddi.
- Profiad o ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd i hysbysu gwasanaethau cynllunio ymchwil neu gyflawni rhaglenni.
- Dealltwriaeth o heriau sy'n wynebu gofalwyr di-dâl, neu brofiad trosglwyddadwy o weithio gyda grwpiau â diffyg cynrychiolaeth neu sydd ar y cyrion.
- Gallu i gasglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth i gefnogi dysgu, asesu a gwneud penderfyniadau.
- Profiad o gyfrannu at brosiectau sy'n cynnwys cyd-gynhyrchu neu wella gwasanaethau, neu gyflawni prosiectau o'r fath.
- Agwedd ragweithiol ac addasadwy, gyda'r gallu i ymateb i ddysgu sy'n dod i'r amlwg ac anghenion newidiol mewn rhaglenni.
- Diddordeb mewn gwella cymorth i ofalwyr ac ymrwymiad i degwch, cynhwysiant ac ehangu lleisiau sy'n cael diffyg cynrychiolaeth.
- Bydd angen teithio ledled Cymru o bryd i'w gilydd fel rhan o'r swydd hon, fodd bynnag, disgwylir i hyn fod yn anaml a chael ei gynllunio ymlaen llaw lle bo hynny'n bosibl.

**Dymunol**

- Byddai trwydded yrru DU a cherbyd at eich defnydd yn ddymunol, ond nid yw'n hanfodol.

CARERS TRUST

# Sut i wneud cais

Gwnewch gais drwy uwchlwytho eich CV a datganiad ategol yn nodi sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf a restrir fel ein hymgeisydd delfrydol drwy wefan Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn unol â'r cyfarwyddiadau.

Rydym yn hapus i ddarparu ar gyfer unrhyw addasiadau a allai fod gennych a byddwn yn rhannu holl gwestiynau'r cyfweliad ymlaen llaw fel rhan o'n hymrwymiad i gyflogi cynhwysol, Am sgwrs anffurfiol, ceisiadau am addasiadau rhesymol, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y swydd, cysylltwch â recruitment@carers.org

- **Dyddiad cau ceisiadau:** Dydd Gwener 31 Gorffennaf 2026
- **Dyddiad disgwyliedig y cyfweliadau:** Dydd Mawrth 18 Awst 2026 / Dydd Mercher 19 Awst 2026

CARERS TRUST

